Great Western Railway

# Siarter Teithwyr

Ebrill 2026

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag.

# Cynnwys

Ein Siarter Teithwyr .................... 4-5

Cynllunio'ch taith .................... 6-7

Eich gwneud yn hawdd prynu tocynnau .................... 8-11

Darparu cymorth i gwsmeriaid anabl a hen .................... 12-16

Beth i'w ddisgwyl yng ngorsafoedd GWR .................... 17-20

Beth i'w ddisgwyl ar drenau GWR .................... 21-26

Teithio gyda thocyn dilys .................... 27-29

Os aiff pethau o chwith .................... 30-31

Iawndal .................... 32-37

Colledion eraill .................... 38-40

Ad-daliad am eich tocyn pan nad ydych yn teithio .................... 41-45

Cysylltu â ni .................... 46-49

Eich data .................... 50

Ein rhwydwaith .................... 51

Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg ei chyhoeddi sef Mawrth 2026 ac mae'n disodli'r fersiwn a gyhoeddwyd ym mis Awst 2025.

Er y cymerwyd pob gofal i baratoi'r wybodaeth hon, ni ellir dal Great Western Railway (GWR) yn atebol am unrhyw wallau neu anwaith pan fydd wedi'i hargraffu.

Lle mae'r symbol hwn - ♦ - wedi'i fewnosod wrth ymyl y rhifau ffôn, mae tâl rhwydwaith safonol yn berthnasol. Gall galwadau o ffonau symudol fod yn uwch.

Cyhoeddwyd gan Great Western Railway. Milford House, 1 Milford Street, Swindon. SN1 1HLL

# Ein Siarter Teithwyr

## Ein Siarter Teithwyr yw ein hymrwymiad i chi. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd pob taith yr ewch arni gyda ni yn rhwydd ac yn bleserus.

Mae ein siarter yn nodi'r hyn y gallwch ei ddisgwyl oddi wrth bawb ohonom yng nghwmni Great Western Railway (GWR), ar ein trenau ac yn ein gorsafoedd. Mae'n nodi'r lefel wasanaeth yr ydym wedi ymrwymo iddi fan lleiaf.

Bob blwyddyn rydym yn adolygu ac yn diweddaru ein siarter. Rydym yn gweithio gyda'r cyrff gwarchod teithwyr Transport Focus a London TravelWatch er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn deg i'n holl gwsmeriaid.

Gallwch gael copïau o'r siarter hon oddi wrth y staff yn ein gorsafoedd, oddi wrth ein tîm Cymorth i Gwsmeriaid neu o'n gwefan, GWR.com.

### Amodau Teithio'r Rheilffyrdd Cenedlaethol

Dylid darllen ein Siarter Teithwyr ochr yn ochr ag **Amodau Teithio'r Rheilffyrdd Cenedlaethol.**

Mae'r Amodau Teithio'n nodi telerau'r contract sydd gennych gyda ni pan fyddwch yn prynu tocyn a'i ddefnyddio i deithio.

Mae copïau o'r amodau hyn ar gael yn **Nationalrail.co.uk**, yn **GWR.com** ac o wneud cais mewn unrhyw swyddfa docynnau â staff.

## Rheoliadau Hawliau a Rhwymedigaethau Teithwyr Rheilffordd

Mae gennych hawliau hefyd o dan Reoliad Hawliau a Rhwymedigaethau Teithwyr Rheilffyrdd (Rhif 1371/2007) ("PRO"), fel y mae'n berthnasol dan gyfraith y DU.

Mae'r Rheoliad yn cynnwys y Rheolau Unffurf ynghylch y Contract i Gludo Teithwyr a Bagiau ar y Rheilffyrdd rhwng Gwledydd (a elwir yn "CIV" yn gyffredinol).

I gael trosolwg o'r hawliau hyn, ac i weld hawliau a rhwymedigaethau teithwyr, ewch i: **Gov.uk/government/ publications/guidance-on-rail-passengers-rights-and-obligations-regulation-no-13712007.**

Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (**ORR.gov.uk**) yw'r Corff Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer y Rheoliad.

# Cynllunio'ch taith

## Gwyddom pa mor bwysig yw rhoi ichi bopeth mae arnoch ei angen i gynllunio'ch taith yn gywir, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am unrhyw newidiadau.

Rydym yn cynnig cyngor, amserlenni a gwybodaeth ynghylch teithio gyda GWR mewn gwahanol ffyrdd.

Dyma sut y gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf:

- Mynd i **GWR.com** i gael gwybodaeth am drenau a theithiau, i brynu tocynnau, i gofrestru i gael cerdyn clyfar ac i argraffu'ch amserlen bersonol eich hun
- Lawrlwytho ein ap am ddim o'r App Store neu Google Play, fel y gallwch gynllunio'ch taith, lawrlwytho e-Docynnau a gwirio amserau trenau a gwybodaeth am deithiau
- Gwirio'r arddangosfeydd gwybodaeth yn ein gorsafoedd
- Darllen ein taflenni yn ein gorsafoedd neu ar ein gwefan
- Ein dilyn ar **X @GWRHelp** i gael gwybodaeth fyw am deithiau, diweddariadau gwasanaeth ac atebion i'ch cwestiynau. Rydym ar gael o 0700 i 1900 7 diwrnod yr wythnos
- Dod o hyd inni ar Facebook yn **Facebook.com/GWRuk**
- Cofrestru i gael hysbysiadau am deithiau yn ddi-dâl ar **JourneyCheck.com/GWR**
- Ffonio ein **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** ar **03457 000 125** (♦) .

Gallwch glustfeinio am gyhoeddiadau yn ein gorsafoedd ac ar ein trenau. Rydym yn rhoi gwybodaeth fyw lawn a chywir cyn ac yn ystod eich taith. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut mae ein trenau'n rhedeg, ynghyd â gwybodaeth am gyfleusterau yn ein gorsafoedd, hyrwyddiadau a phrisiau tocynnau.

## Ymholiadau’r Rheilffyrdd Cenedlaethol/Traveline

Gallwch gael gwybodaeth am holl drenau’r DU oddi wrth Ymholiadau’r Rheilffyrdd Cenedlaethol, lle gallwch hefyd greu ac argraffu eich amserlen eich hun ar gyfer y gwasanaethau a ddefnyddiwch. Mae mwy o fanylion ar dudalen amserlenni gwefan Ymholiadau’r Rheilffyrdd Cenedlaethol.

Os hoffech inni argraffu amserlen a’i phostio at eich cyfeiriad cartref, gallwch anfon neges e-bost at Ymholiadau’r Rheilffyrdd Cenedlaethol yn **customer.relations@nationalrail.co.uk**, neu ffonio 0800 022 3720.

Gall Traveline eich helpu gyda gwybodaeth am wasanaethau bysiau lleol a chenedlaethol. Gallwch ei ffonio ar **0871 200 22 33*** neu ewch i **traveline.info**.

* Mae galwadau yn costio 12 ceiniog y funud ynghyd â ffi mynediad eich cwmni ffôn

# Ei gwneud yn hawdd prynu tocynnau

Hoffem ei gwneud mor hawdd ag y gallwn ichi brynu tocyn i deithio gyda ni felly rydym yn cynnig sawl opsiwn sy’n addas i amgylchiadau a chyllidebau gwahanol

### Gwefan GWR

Ewch **GWR.com** i brynu tocynnau cyn ichi deithio.

Gall y rhan fwyaf o docynnau cael:

- E u hanfon atoch fel e-Docyn/PDF i’w defnyddio ar ddyfais symudol neu eu hargraffu gartref
- Eu hychwanegu at gerdyn clyfar
- Eu casglu o’r orsaf
- Eu hanfon atoch trwy’r post

### AP GWR

Mae ap di-dâl GWR i ddyfeisiau symudol yn ffordd hawdd i gynllunio, prynu tocynnau a gwirio’ch taith, ynghyd â chreu’ch cynllunydd eich hun ar gyfer y daith o ddrws i ddrws.

Gallwch:

- Gael y prisiau rhataf am docynnau trwodd
- Prynu e-Docynnau
- Cadw eich hoff deithiau
- Cael diweddariadau byw ar amserau bysiau a threnau, gan gynnwys gwybodaeth am blatfformau a safleoedd bws ar gyfer eich taith

- Cael gwybodaeth llwytho fyw i weld pa gerbydau sy'n brysur neu lle mae seddi ar gael
- Cadw lle ar gyfer beic hyd at 2 awr cyn ymadael ar rai gwasanaethau dethol, os oes lle ar gael.
- Mae ap GWR ar gael i'w lawrlwytho trwy'r **App Store** a **Google Play**

Nid ydym yn codi ffi weinyddol am docynnau sy'n cael eu harchebu oddi wrth GWR ar ein gwefan neu trwy'r ap.

## Swyddfa Docynnau

Byddwn yn esbonio'r holl opsiynau o ran tocynnau a phrisiau, ac yn eich helpu i ddod o hyd i'r un gorau ar gyfer eich taith chi.

Gallwch ddefnyddio arian parod a'r rhan fwyaf o gardiau credyd a debyd, a Thalebau Teithio'r Rheilffyrdd dilys i dalu – mae pob swyddfa'n arddangos rhestr o'r cardiau talu mae'n eu derbyn yn y ffenestr.

Cewch weld oriau agor ein swyddfeydd tocynnau ar **GWR.com** neu'n cael eu harddangos yn ein gorsafoedd, ynghyd â manylion sut i brynu tocynnau os yw'r swyddfa ar gau.

Ni ddylech orfod aros am fwy na phum munud i brynu tocyn yn ein swyddfa docynnau yn ystod yr oriau brig, neu fwy na thri munud ar adegau eraill. Mae pob swyddfa docynnau'n dangos cyfnodau'r oriau brig ochr yn ochr â'r oriau agor.

## Peiriannau Tocynnau

O beiriant tocynnau gallwch brynu amrywiaeth fawr o docynnau sydd ar gael i'w defnyddio ar unwaith. Gallwch hefyd gasglu tocynnau rydych wedi'u prynu ar lein. Mae gan y rhan fwyaf o'n gorsafoedd beiriannau tocynnau ac maent yn derbyn arian parod a/neu'r rhan fwyaf o gardiau credyd a debyd.

Weithiau byddwn yn cyfyngu ar y tocynnau sydd ar gael. Er enghraifft, ni allwch brynu tocyn i deithio y tu allan i'r oriau brig o beiriant tocynnau yn ystod yr oriau brig.

Gallwch wirio a oes peiriant tocynnau yn eich gorsaf leol ar **GWR.com** neu drwy ffonio **Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol** ar **03457 48 49 50** (♦).

### Gwarant Prisiau Peiriant Tocynnau

Os ydych wedi prynu tocyn o un o'n peiriannau hunanwasanaeth ac y cewch wedyn fod un rhatach ar gael am yr un daith, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i ad-daliad o'r gwahaniaeth.

I gyflwyno hawliad cysylltwch â'n **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** gyda chopi o'r tocynnau perthnasol a manylion eich taith, gan gynnwys yr amser a deithioch.

## Cerdyn cyfar touch

Mae ein cerdyn clyfar touch ar gael ar gyfer Tocynnau Tymor, London Travelcard a thocynnau sengl a dwyffordd (ar lwybrau dethol) ar y rhan fwyaf o'n rhwydwaith. Mae'n cynnig ffordd gyflym a hawdd o storio'ch tocynnau trên.

Mae gan **GWR.com** dudalen we benodol am y cerdyn clyfar touch sy'n dweud wrthych sut i gael eich cerdyn clyfar yn ddi-dâl ac arweiniad defnyddiol ar sut i'w ddefnyddio.

## Plusbus

Tocyn bws am bris gostyngol yw PlusBus y gallwch ei brynu gyda'ch tocyn trên. Mae'n rhoi ichi deithiau diderfyn ar fysiau (ar wasanaethau'r cwmnïau sy'n cymryd rhan) i ac o'r orsaf reilffordd ac o amgylch holl ardal drefol y dref neu ddinas mae'r rheilffordd yn ei gwasanaethu.

Gellir prynu'r tocynnau o swyddfeydd tocynnau GWR neu o **GWR.com**.

# Darparu cymorth i gwsmeriaid anabl a hen

Hoffem i bawb sy’n teithio gyda ni gael taith rwydd a chyfforddus – gan gynnwys ein cwsmeriaid hŷn a phobl ag anableddau.

Os oes arnoch angen cymorth i fynd ar y trên a dod oddi arno, mynd o gwmpas yr orsaf neu gynllunio’ch taith, rydym yn fwy na hapus i helpu.

Rydym yn cydnabod bod gan rai pobl y mae angen arnynt gymorth anableddau na all ein staff, o bosibl, eu gweld. Os oes gennych anabledd tebyg, gallwch fod yn dawel eich meddwl - os ydych yn dweud wrthym fod angen cymorth arnoch, byddwn yn helpu.

Mae ein Polisi Teithio Hygyrch yn nodi ein hymrwymiad i helpu ein cwsmeriaid sy’n anabl. Mae’n rhoi esboniad o sut i drefnu cymorth, pa gymorth rydym yn ei gynnig, a lle i gael rhagor o wybodaeth.

Gallwch ddarllen y polisi ar ein gwefan yn **GWR.com/PassengerAssist** neu gallwch gasglu copi o’n taflen ‘Gwneud y Rheilffyrdd yn Hygyrch – Helpu teithwyr hŷn ac anabl’ o unrhyw orsaf GWR sydd â staff.

Mae hefyd ar gael mewn print bras, mewn Braille ac fel recordiad sain oddi wrth ein **Tîm Teithio â Chymorth**. Gallwch ei ffonio’n ddi-dâl ar **0800 197 1329.**

## Teithio â chymorth (Passenger Assist)

Os ydych chi’n cynllunio taith gyda ni, gallwch drefnu cymorth hyd at ddwy awr cyn ichi deithio.

Wedyn byddwn:

- yn eich helpu i ddod o hyd i'r orsaf agosaf sydd â'r cyfleusterau gorau ichi
- yn eich helpu i gynllunio'r llwybr hawsaf ar gyfer eich taith
- yn sicrhau bod ein staff yn gwybod eich bod ar eich ffordd a pha gymorth y mae arnoch ei angen
- yn rhoi ichi'r holl help a allwn ar hyd y ffordd – yn yr orsaf ac ar y trên
- yn sicrhau bod staff yn eich cyrchfan yn gwybod eich bod yn teithio, er mwyn iddynt gwrdd â chi pan fyddwch yn cyrraedd.

Os nad yw'ch gorsaf leol neu'r orsaf mae angen ichi fynd iddi yn hygyrch, peidiwch â phoeni. Byddwn yn trefnu ichi gychwyn a gorffen eich taith mewn gorsafoedd sy'n hygyrch, yn ddi-dâl.

**Sut i archebu cymorthe**

Mae ein Tîm Teithio â Chymorth ar gael 24 awr y dydd, pob dydd heblaw Dydd Nadolig a Dydd San Steffan (25 a 26 Rhagfyr), i brosesu archebion a wneir ar y wefan neu drwy ap Teithio â Chymorth, ac i reoli ceisiadau dros y ffôn.

Gallant hefyd werthu tocynnau a chadw seddi ar gyfer eich taith.

Caiff archebion a wneir ar y wefan neu drwy'r ap rhwng 2200 ar 24 Rhagfyr a 0001 ar 27 Rhagfyr eu prosesu pan fydd ein canolfan gysylltiadau'n ailagor ar 27 Rhagfyr.

Gallwch:

- eu ffonio am ddim ar **0800 197 1329**
- defnyddio gwasanaeth cyfleu testun am ddim ar **18001 0800 197 1329**
- anfon neges e-bost at **Passenger.Assist@GWR.com**

Gallwch hefyd drefnu cymorth trwy ein gwefan: **GWR.com**, neu drwy lawrlwytho ap Cymorth i Deithwyr o'r App Store a Google Play.

### Cymorth yn methu

Mae gan yr holl gwmnïau trên unigol eu polisïau eu hunain ar wneud iawn, y gellir eu gweld yn y Polisïau Teithio Hygyrch. Os ydych yn teithio gyda GWR ac mae'r cymorth a drefnwyd ichi yn methu, fe gewch iawndal.

Os yw GWR yn methu â darparu'r cymorth a drefnwyd ichi, byddwn yn edrych ar yr hyn ddigwyddodd fesul achos er mwyn inni ddarparu'r iawndal priodol. Bydd hwn o leiaf 100% o gost tocyn sengl, neu 50% os oes gennych docyn dwyffordd.

Lle mae cwmni trên arall yn gyfrifol am y methiant, gallwch gysylltu ag ef yn uniongyrchol, neu gallwn gysylltu ag ef ar eich rhan.

Lle na chafodd cymorth ei ddarparu oherwydd oedi, ac y gallai Ad-dalu am Oedi ac iawndal Teithio â Chymorth fod yn berthnasol, bydd gennych hawl i gael p'un bynnag yw'r gwerth mwyaf, ond ni fyddwch yn gallu hawlio'r ddau.

Nid yw'r cynllun iawndal a nodir uchod yn eithrio nac yn cyfyngu ar eich hawliau cyfreithiol eraill i iawndal o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 na Deddf Cydraddoldeb 2010. Lle tybiwch fod hyn yn berthnasol i'ch taith, dylech gysylltu â'n **tîm Cymorth i Gwsmeriaid**.

### I deithio ar unwaith

Gallwch fynd i unrhyw orsaf sy'n hygyrch i chi a gofyn am gymorth i fynd ar y trên gan aelod o'r staff. Rydym yn argymell ichi gyrraedd 20 munud cyn i'ch trên adael er mwyn sicrhau bod staff ar gael i roi'r cymorth sydd ei angen.

Lle nad oes staff mewn gorsaf ac mae arnoch angen cymorth, ffoniwch ein **Tîm Cymorth i Deithwyr** ar **0800 197 1329**, neu defnyddiwch y Man Cymorth ar y platfform. Byddwn yn darparu'r help y mae arnoch ei angen cyn gynted ag y bo modd.

### Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae mwy o wybodaeth am orsafoedd a nodweddion hygyrchedd, oriau staff, trenau ac amserau teithio ar gael yn **GWR.com/Stations** neu gan **Nationalrail.co.uk**.

Mae'r wybodaeth hefyd ar gael trwy ein ffonio ar **0800 197 1329** neu **03457 48 49 50** (ffôn) (♦) neu Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol ar **0345 60 50 600** (ffôn testun). Mae'r rhain ar gael 24 awr y dydd.

## Trwyddedau sgwteri symudedd

Rydym yn hapus ichi ddod â sgwter symudedd gyda chi os oes gennych drwydded ar ei gyfer.

Yr unig eithriadau yw sgwteri sy'n fwy na 120cm o hyd neu 70cm o led a/neu os ydych chi a'r sgwter gyda'ch gilydd yn pwyso mwy na 300kg.

Gallwch ddysgu mwy am hyn a gwneud cais am drwydded trwy ffonio ein **Tîm Cymorth i Deithwyr** ar **0800 197 1329**.

Gallwch hefyd wneud cais yn **GWR.com**. Gweler ein Polisi Teithio Hygyrch am fwy o wybodaeth.

Ni fydd angen arnoch drwydded os allwch blygu eich sgwter symudedd fel nad yw'n fwy na chês mawr arferol ac y gellir ei rhoi ar y silff bagiau. Bydd angen ichi allu mynd â'r sgwter ar y trên ac oddi arno ar eich pen eich hun, neu fod â rhywun gyda chi a all helpu.

## Cardiau seddi blaenoriaeth

Rydym bob amser yn gofyn i'n cwsmeriaid ildio seddi blaenoriaeth i bobl sydd eu hangen mwyaf. Ond nid yw'n amlwg bob amser pam fod angen sedd ar rywun.

Os ydych yn anabl, yn feichiog, dros 65 oed neu'n teithio gyda phlentyn dan 3 oed ac mae angen arnoch eistedd wrth deithio, rydych yn gymwys i gael Cerdyn Sedd Blaenoriaeth. Fel hyn, pan fyddwch yn gofyn i rywun ildio ei sedd, gallwch ddangos eich cerdyn heb unrhyw embaras a heb roi esboniad.

I wirio os allwch gael cerdyn, ffoniwch ein **Tîm Cymorth i Deithwyr** ar **0800 197 1329** neu ewch i **GWR.com**

Mae seddi blaenoriaeth wedi'u labeli'n glir ar bob un o'n trenau, fel arfer yn agos i'r drysau. Gallwch weld cynlluniau seddi i'n trenau yn **GWR.com**

## Parcio i ddeiliaid Bathodyn Glas Rhyngwladol

Caiff pob cwsmer sy'n arddangos Bathodyn Glas rhyngwladol cyfredol barcio'n ddi-dâl. Y cyfan sydd ei hangen yw bod y bathodyn yn weladwy trwy'ch ffenestr flaen.

Efallai y bydd angen gweithdrefnau ychwanegol mewn meysydd parcio sy'n cael eu monitro trwy dechnoleg adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig (ANPR) . Dylech wirio'r arwyddion lleol.

# Beth i’w ddisgwyl yng ngorsafoedd GWR

Hoffem i’n gorsafoedd fod yn ddymunol ac yn hawdd eu defnyddio. Rydym yn gwirio’n rheolaidd bod popeth yn gweithio’n iawn ac yn cadw ein gorsafoedd mor lân a thaclus ag y gallwn drwy gydol y dydd.

Os sylwch nad felly y mae, siaradwch ag aelod o’n tîm yn yr orsaf neu ffoniwch ein **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** ar **03457 000 125** (♦).

Mae gwybodaeth fanwl am ein gorsafoedd hefyd ar gael yn **GWR.com**.

Dyma beth allwch ei ddisgwyl yn y gorsafoedd a reolir gan GWR:

## Staff GWR

Mae ein staff mewn gorsafoedd yn gwisgo gwisg nodedig GWR a bathodyn enw. Byddant yn hapus i ateb eich cwestiynau neu roi gwybodaeth i chi.

## Gorsafoedd heb staff

Mae Mannau Cymorth yn ein holl orsafoedd heb staff i’ch caniatáu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eich taith ac i siarad ag aelod o staff.

Rydym hefyd yn sicrhau bod posteri’n dangos y wybodaeth ddiweddaraf y gallai fod arnoch ei hangen.

## Mannau aros

Mae gan ein holl orsafoedd mannau aros dan gysgod. Mae gan rai ohonynt ystafelloedd aros, a fydd yn agor pan fydd staff yn bresennol.

Mae hefyd gennym lolfeydd Dosbarth Cyntaf yng ngorsafoedd Llundain Paddington a Caerdydd Canolog.

Dyma eu horiau agor arferol, ond gall y rhain newid o dro i dro:

| **Llundain Paddington** | |
|---|---|
| Dydd Llun i ddydd Gwener | 0500 - 2330 |
| Dydd Sadwrn | 0500 - 2100 |
| Dydd Sul | 1000 - 2330 |
| Gŵyl Banc | 0500 - 2330 |

| **Caerdydd Canolog** | |
|---|---|
| Dydd Llun i ddydd Gwener | 0630 - 1830 |
| Dydd Sadwrn | 0900 - 1600 |
| Dydd Sul | 1000 - 1600 |
| Gŵyl Banc | Ar gau |

Gall teithwyr ar y trên Night Riviera Sleeper sy’n teithio i Lundain Paddington hefyd ddefnyddio ein lolfeydd arbennig yn Penzance a Truro sydd ar agor awr cyn i’r trên ymadael.

Maent hefyd ar gael i deithwyr sy’n cyrraedd ar y trên cerbydau cysgu.

## Gatiau Tocynnau

Er diogelwch ychwanegol, ac er mwyn atal pobl rhag teithio heb docyn, rydym wedi gosod gatiau tocynnau awtomatig mewn llawer o'n gorsafoedd.

Os oes arnoch angen cadw eich tocyn ar ôl eich taith, gallwch ei ddangos i'r staff wrth y gatiau a dweud wrthynt fod arnoch angen ei gadw. Byddant yn agor gât ichi.

## Gwybodaeth

Rydym yn rhoi cymaint o wybodaeth ag y gallwn i'ch helpu i ddod o hyd i'ch trên.

Ceir holl fanylion y platfformau, amserau trenau a'r gorsafoedd sydd ar bob llwybr ar ein hysbysfyrddau a'n sgriniau gwybodaeth.

Mae hefyd gennym Fannau Cymorth yn ein holl orsafoedd, lle gallwch gael diweddariadau byw a gwybodaeth am amserlenni.

## Newid trenau

Os ydych yn newid trenau ac mae'ch trên presennol yn rhedeg yn hwyr, efallai na fydd eich trên nesaf yn gallu aros amdanoch. Nid ydym eisiau i'r cwsmeriaid sydd eisoes ar y trên hwnnw fod yn hwyr hefyd.

Efallai y byddwn yn gallu aros ar adegau – er enghraifft, os nad oes trên arall yn gwneud y daith honno ar ôl y trên cysylltiol. Lle na fydd modd aros, bydd eich tocyn yn ddilys ar gyfer y gwasanaeth nesaf sydd ar gael.

Dylech wirio ein hamserlenni i weld faint o amser y bydd arnoch ei angen i newid trenau cyn archebu eich tocynnau. Mae'n gall caniatáu cyfnod rhesymol o amser bob tro i ddal eich trên cysylltiol ymlaen.

## Methu cysylltiad

Os ydych wedi rhoi digon o amser i'ch hun ond wedi methu cysylltiad oherwydd bod ein trên yn hwyr, byddwn yn eich helpu i gyrraedd eich cyrchfan ar eich tocyn.

Efallai y bydd gennych hawl i iawndal os yw hyn wedi achosi oedi i chi o 15 munud neu fwy.

Gellir hawlio iawndal Ad-dalu am Oedi yn **GWR.com/DelayRepay**

## Parcio ceir

Mae gan y rhan fwyaf o'n gorsafoedd leoedd i'n cwsmeriaid barcio eu ceir. Ewch i **GWR.com** i weld a oes maes parcio gan eich gorsaf leol, a faint yw'r costau.

Gallwch ffonio ein tîm Cymorth i Gwsmeriaid ar **03457 000 125** (♦), a fydd hefyd yn gallu rhoi'r wybodaeth hon ichi. Gallai pobl sy'n teithio'n rheolaidd arbed arian ar gost parcio gyda Thocyn Tymor maes parcio.

## Toiledau

Mae gan lawer o'n gorsafoedd doiledau i'n cwsmeriaid ac maent ar agor pan fydd ein staff yn bresennol. Rydym yn gweithio'n galed i'w cadw yn lân ac yn hylan drwy gydol y dydd ond rhowch wybod i aelod o'r staff os sylwch ar broblem.

Mae rhai o'n gwasanaethau'n galw mewn gorsafoedd sy'n cael eu rheoli gan gwmnïau trên eraill, neu gan Network Rail.

# Beth i'w ddisgwyl ar drenau GWR

Hoffem i'ch taith fod yn gyfforddus ac yn bleserus, felly rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod popeth yn mynd yn ddidrafferth.

## Bwyd a diod

Rydym yn cynnig amryw o opsiynau gwahanol o ran bwyd a diod ar lawer o'n trenau. Rydym yn dangos pa drenau sydd i fod â gwasanaeth arlwyo yn ein hamserlen, ac ar **GWR.com**

Byddwn yn gwneud ein gorau i roi gwybod ichi os na ellir darparu unrhyw wasanaeth arlwyo cyn ichi deithio.

Nid yw ein gwasanaeth bwyd a diod ar drenau'n derbyn arian parod. Yn hytrach, rydym yn derbyn Apple Pay, Google Pay a'r holl brif gardiau debyd a chredyd, gan gynnwys American Express.

## Wi-Fi

Rydym yn cynnig Wi-Fi yn ddi-dâl ar ein gwasanaethau ac yn rhai o'n gorsafoedd.

Gallwch weld y rhestr ddiweddaraf o'r gorsafoedd sy'n cynnig Wi-Fi yn ddi-dâl, ac ychydig o wybodaeth am gysylltu â'r Wi-Fi i gwsmeriaid yn **GWR.com/wifi**.

Gallwch weld y rhestr ddiweddaraf o'r gorsafoedd sy'n cynnig Wi-Fi yn ddi-dâl, ac ychydig o wybodaeth am gysylltu â'r Wi-Fi i gwsmeriaid yn

## Dosbarth Cyntaf

Mae gennym gerbydau dosbarth cyntaf ar lawer o'n trenau – mae'r rhain wedi'u nodi ar **GWR.com** ac yn ein hamserlenni printiedig.

Ein nod yw cynnig gwasanaeth Dosbarth Cyntaf wrth y sedd ar wasanaethau cyflym, pellter hir sy'n dechrau ar eu teithiau ar ddyddiau'r wythnos rhwng 0600 a 1930, ond ni allwn warantu hyn.

## Beiciau

Rydym yn darparu mannau storio beiciau yn y rhan fwyaf o'n gorsafoedd, ac mae nifer o gynlluniau gwahanol i logi beiciau ar gael ar draws ein rhwydwaith. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn **GWR.com/Bikes**.

Rhaid ichi gadw lle ar gyfer eich beic pan fyddwch yn teithio ar ein holl wasanaethau Intercity Express Trains (IET) ac ar y Night Riviera Sleeper. Rhaid ichi deithio gyda thystiolaeth eich bod wedi cadw lle.

Ar ein trenau lleol, mae lleoedd ar gael ar sail 'y cyntaf i'r felin' a hynny os oes lle ar gael.

Gellir cadw lle yn ddi-dâl, ar lein yn **GWR.com** com wrth brynu'ch tocyn, mewn swyddfa docynnau neu drwy ffonio **03457 000 125** (♦).

Yn unol ag **Amodau Teithio'r Rheilffyrdd Cenedlaethol** byddwn yn gwrthod cludo beic pan na fydd yn ddiogel i wneud hynny, neu os na chadwyd lle ar drên y mae'n rhaid cadw lleoedd arno.

Gellir mynd â beiciau sy'n plygu ac nad yw eu holwynion yn fwy nag 20 modfedd ar unrhyw drên ar unrhyw adeg a'u storio fel bag (gweler yr adran 'bagiau' isod). Dylech blygu'r beic cyn mynd ar y trên. Rydym yn caniatáu beiciau trydan sy'n gyfreithlon ar gyfer y ffordd (neu e-feiciau) ar ein

gwasanaethau os ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau yn ein polisi 'Beicio ar Drên'.

Mae copïau o'r polisi ar gael yn **GWR.com** neu yng ngorsafoedd GWR.
Ni ellir gwefru beiciau trydan mewn gorsafoedd neu ar drenau ar unrhyw adeg.

Ni allwn gludo tandemau, treisiclau na feiciau ag ôl-gerbydau ar unrhyw adeg.

Ni chaniateir beiciau modur, sgwteri modur a cherbydau pweredig.

Os ydych wedi cadw lle ar gyfer eich beic ac nid ydym yn darparu'r lle hwnnw, gallwch hawlio iawndal. Caiff hwn ei dalu'n unol â'n cynllun Ad-dalu am Oedi. Cysylltwch â'n **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** gyda chopi o'ch tocyn, archeb a manylion eich taith er mwyn gwneud hawliad.

## Anifeiliaid ar y trên

Os hoffech deithio gyda'ch anifail anwes, rydym yn hapus ichi wneud hynny. Gofynnwn ichi gadw cŵn ar dennyn.

Rhaid i anifeiliaid dof bach eraill deithio bob amser mewn cludydd cwbl gaeedig nad yw'n fwy nag  85 x 60 x 60 cm

Gallwch fynd â hyd at ddau anifail yn ddi-dâl. Bydd hefyd arnoch angen eu cadw oddi ar y seddi a gwneud yn siŵr nad ydynt yn cymryd lle y gallai cwsmeriaid eraill ei ddefnyddio.

## Cadw sedd

Pan fydd gennych docyn, gallwch gadw un sedd ar bob trên y gellir cadw seddi arno ar gyfer pob teithiwr sy'n teithio. Os nad ydych yn defnyddio'ch sedd, byddwn yn ei rhoi i rywun arall. Os ydych yn prynu tocyn Advance, ni fydd yn ddilys ond gyda'r tocyn cadw sedd a ddaw gydag ef.

Os nad ydych wedi cadw sedd, mae'n bosibl na chewch sedd ar y trên os yw'n brysur. Rydym yn adolygu'r lleoedd ar ein trenau yn gyson er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaeth da. Os nad ydych wedi cadw sedd, mae'n bosibl na fyddwch yn eistedd ar y trên os yw'n brysur gan nad yw eich tocyn yn gwarantu y byddwch yn cael sedd.

Mae rhai o'n tocynnau'n hyblyg, felly gallwch ddal unrhyw un o'n trenau. Ond mae'n syniad da cadw sedd ar drên penodol os ydych yn gwybod pa bryd y byddwch yn teithio - yn enwedig ar gyfer teithiau pellter hir.

Gallwch gadw sedd yn ddi-dâl a hynny wrth brynu tocyn neu wedi hynny drwy ffonio ein **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** ar **03457 000 125** (♦) neu drwy fynd i un o'n swyddfeydd tocynnau.

### Os nad oes seddi Dosbarth Safonol ar gael ac rydych wedi cadw sedd

Os ydych wedi cadw sedd dosbarth safonol ond bu rhaid ichi sefyll ar hyd eich taith gyfan oherwydd nad oedd y sedd a archeboch na sedd arall ar gael, byddwn yn rhoi iawndal ichi. 50% o gost tocyn sengl fydd hyn, neu 25% os oes gennych docyn dwyffordd.

I hawlio'ch iawndal, dylech gysylltu â'n **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** cyn pen 28 o ddiwrnodau ar ôl eich taith. Bydd angen arnom gopi o'ch tocyn, eich archeb a manylion y daith.

Os oeddech wedi cadw sedd ac wedi gorfod sefyll am ran o'r daith, neu os oedd eich taith gyda GWR yn rhan o daith a oedd yn cynnwys Cwmni Trên

arall, dylech gysylltu â'n **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** gyda manylion llawn yr hyn a ddigwyddodd er mwyn inni ystyried rhoi arwydd o ewyllys da.

**Os nad oes seddi Dosbarth Cyntaf ar gael ac mae gennych docyn Dosbarth Cyntaf**

Os oes gennych docyn dosbarth cyntaf ac nid oes seddi ar gael yn yr adran dosbarth cyntaf ond gallwch eistedd yn yr adran dosbarth safonol, neu mae'n rhaid ichi sefyll yn yr adran dosbarth cyntaf, byddwn yn ad-dalu'r gwahaniaeth rhwng eich tocyn Dosbarth Cyntaf a'r tocyn dosbarth safonol cyfatebol.

Os nad oes seddi ar gael yn yr adran dosbarth safonol, byddwn yn talu cost lawn y daith a effeithiwyd arni.

Os oes gennych Docyn Tymor, byddwn yn cyfrifo'r gyfradd ddyddiol gymesurol (nid pro rata) ar gyfer eich taith.

I hawlio'ch iawndal, dylech gysylltu â'n **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** cyn pen 28 o ddiwrnodau ar ôl eich taith. Bydd angen arnom gopi o'ch tocyn, eich archeb a manylion y daith.

## Bagiau

Rydym bob amser yn gwneud ein gorau i gludo'ch holl fagiau ond ni ddylech ddod â mwy o fagiau ar y trên nag y gallwch eu cario.

Os yw'r trên yn brysur, neu y byddai llwytho'ch bagiau'n gallu achosi oedi, anaf neu anghyfleustra, ni fyddwn yn gallu eu cludo.

Hefyd, ni fyddwn yn cludo bagiau heb berchennog nac unrhyw beth a allai fod yn beryglus yn ein barn ni.

Mae mwy o wybodaeth am fynd â bagiau ac eitemau eraill gyda chi ar eich taith ym mharagraffau 23, 25 a 26 o **Amodau Teithio'r Rheilffyrdd Cenedlaethol**.

Os caiff eich eiddo ei ddifrodi, byddwn yn ystyried pa iawndal a allai fod yn ddyledus os oedd ein staff neu ein gwasanaeth ar fai.

## Byrddau syrffio

Gall byrddau syrffio gael eu cludo yn Fan y Gard ar drên y Night Riviera.

Ar drenau araf lleol caniateir byrddau syrffio os nad yw'r trên yn brysur, neu os na fydd llwytho'ch bagiau'n achosi oedi, anaf neu anghyfleustra. Ni allwn gludo byrddau syrffio ar unrhyw wasanaethau High Speed Trains neu Intercity Express Trains (o dan unrhyw amgylchiadau).

Os nad ydych yn siŵr pa drên rydych chi'n teithio arni, dylech gysylltu â'n **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** i gael cymorth.

# Teithio gyda thocyn dilys

## Rhaid ichi deithio gyda thocyn dilys.

Mewn gorsafoedd â staff neu beiriannau tocynnau, rhaid ichi dalu am eich taith cyn mynd ar y trên os oes cyfleusterau ar gael i wneud hynny.

Os yw eich tocyn ar ddyfais symudol, dylech gofio gwefru'r ddyfais yn ddigonol fel bod modd gwirio'r tocyn o wneud cais.

Lle nid oes staff mewn gorsaf, neu nid yw'r peiriannau tocynnau'n gweithio neu'n methu â rhoi ichi'r tocyn rydych ei eisiau, rhaid ichi brynu tocyn priodol i gwblhau'ch taith cyn gynted ag y gallwch yn rhesymol.

Fel arall, cofiwch y gellid prynu'r rhan fwyaf o docynnau ar ddyfais symudol, er rydym yn deall nad oes gan bawb ddyfais i'w defnyddio.

Os brynwch docyn â chyfyngiadau arno, a/neu ostyngiad Cerdyn Rheilffordd, rhaid ichi gadw at unrhyw gyfyngiadau a chario eich Cerdyn Rheilffordd gyda chi. Fel arall, bydd angen ichi dalu eto am eich taith a hynny am y pris llawn.

### Os ydych wedi anghofio neu wedi colli'ch Cerdyn Rheilffordd neu Docyn Tymor

Os ydych wedi anghofio neu golli'ch Cerdyn Rheilffordd dilys ac wedi methu â'i ddangos pan ofynnwyd amdano, ond gallwch ddangos y Cerdyn Rheilffordd dilys hwnnw yn ddiweddarach, dylech gysylltu â'n **tîm Cymorth i Gwsmeriaid.**

Byddant yn trefnu ad-daliad am unrhyw dâl ychwanegol a godwyd; ar gyfer un hawliad yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis. Bydd angen arnom weld y Cerdyn Rheilffordd a holl docynnau perthnasol y daith.

Os oes gennych docyn tymor dilys ond yn methu â dangos naill ai'ch tocyn neu'ch cerdyn llun pan ofynnir amdano, efallai y byddwn yn gofyn ichi brynu tocyn newydd ar gyfer eich taith.

Byddwn yn trefnu ad-daliad am unrhyw dâl ychwanegol a godwyd llai ffi weinyddol; ar gyfer dau hawliad yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis. Bydd angen arnom weld copi o'ch Tocyn Tymor, y cerdyn llun a'r tocyn newydd y gofynnwyd ichi ei brynu.

## Os nad oes gennych docyn dilys

Os ydych yn teithio heb docyn neu heb docyn dilys, gallech gael Hysbysiad Tocyn heb ei Dalu neu Hysbysiad Taliad Cosb. Os ydych wedi talu pris gostyngol oherwydd bod gennych Gerdyn Rheilffordd, bydd angen arnoch ddangos hwnnw hefyd er mwyn i'ch tocyn fod yn ddilys.

Cewch wybod mwy am ein polisi 'Prynu Tocyn Cyn Mynd ar Drên' a'n polisi Diogelu Refeniw ar **GWR.com**

## Teithio fel grŵp

**Teithio er pleser:** Os ydych chi'n teithio gyda ffrindiau neu deulu, gallwch ddefnyddio GroupSave i leihau cost teithio os yw 3-9 o bobl yn teithio gyda'i gilydd.

**Teithio at ddibenion gwaith:** Ar gyfer grwpiau o 10 neu ragor sy'n teithio ar fusnes, mae ein tocyn busnes yn caniatáu i 10 o bobl deithio am bris 9 ar lwybrau dethol.

I gael rhagor o fanylion, ewch i **GWR.com**, anfonwch neges e-bost at **GWRGrouptravel@GWR.com**, neu ffoniwch **03457 000 125** (♦).

## Teithio ar fusnes

Os ydych yn teithio at ddibenion gwaith, efallai yr hoffech ddefnyddio ein gwasanaeth prynu tocynnau a rheoli busnes pwrpasol, Business Direct, i drefnu'ch teithiau'n gyflym ac yn hwylus. Gallwch ffonio ein tîm ar **03457 000 125** (♦), neu anfon neges e-bost at **GWRBusinessDirect@GWR.com**.

Mae rhagor o fanylion ar **GWR.com**

# Os aiff pethau o chwith

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod eich teithiau gyda ni yn mynd yn hwylus ond gwyddom nad yw pethau'n mynd yn iawn bob amser.

Os bydd oedi ar eich taith, byddwn yn gwneud popeth a allwn i fynd â chi i le mae angen ichi fod.

## Eich helpu yn ystod oedi

- Byddwn bob amser yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am yr hyn sy'n digwydd a rhoi cyngor ar eich taith
- Os yw'r problemau ar ein gwasanaeth neu'r rhwydwaith rheilffyrdd yn wael iawn, byddwn yn ceisio rhoi staff ychwanegol ar y trenau lle mae oedi ac yn y gorsafoedd yr effeithiwyd arnynt
- Os oes oedi ar ein gwasanaeth am fwy nag awr, ein nod yw rhoi lluniaeth heb alcohol yn ddi-dâl os yw ar gael a thra bod cyflenwad ohono ar gael
- Os oes oedi ar y trên rydych chi arno yn ystod eich taith, byddwn yn eich cludo i'r orsaf rydych yn mynd iddi os gallwn - ar fws neu mewn tacsi os bydd angen. Os na allwn fynd â chi i'r orsaf honno, byddwn yn eich cludo'n ôl i'r orsaf fydd yn gweithio orau ichi. Os na allwn wneud y naill beth na'r llall, byddwn yn dod o hyd i le ichi aros dros nos, er mwyn ichi barhau â'ch taith y diwrnod wedyn
- Ein nod fydd gwneud y trefniadau o ran bws/tacsi/gwesty ichi ar ein traul ni. Os nad ydym yn gwneud y trefniadau hynny ac rydych yn eu gwneud eich hun, byddwn yn talu'ch costau rhesymol a chymesur ar gyfer:
  - Dull teithio amgen
  - Gwesty lle mae hwn yn gam rhesymol ichi ei gymryd yn lle cwblhau'ch taith

- Gallwch ddewis gwneud trefniadau drutach ar eich traul eich hun
- Hoffem wneud y broses o hawlio iawndal am daith y bu oedi arni mor hawdd ag y gallwn. Lle bo modd, bydd ein tîm yn rhoi gwybod ichi pan fo hawl gennych i'w gael ac yn cynnig cyngor ichi ar sut i gyflwyno hawliad.

## Cysylltu â ni

Os oedd oedi ar eich taith gyda GWR a hoffech siarad â ni, croesawn y cyfle i wneud yn iawn amdano ac i ymdrin ag unrhyw gwynion sydd gennych yn gyflym ac yn effeithlon.

I gael mwy o wybodaeth am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym a sut i gysylltu â ni, edrychwch ar ein Polisi Ymdrin â Chwynion. Mae copi ar gael yn **GWR.com**

# Iawndal

## Rydym yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth prydlon, ond gwyddom nad yw pethau'n mynd yn iawn bob amser.

Os oes oedi ar eich taith, byddwn yn eich helpu i fynd i le mae angen ichi fod. Yn yr adran hon, rydym yn nodi sut mae ein system iawndal am oedi yn gweithio, pa iawndal y dylech ddisgwyl ei gael, a sut i wneud hawliad.

### Iawndal

Mae GWR yn gweithredu cynllun Ad-dalu am Oedi i'r holl ddeiliaid tocynnau, gan gynnwys Tocynnau Tymor, sy'n rhoi iawndal am unrhyw oedi dros 15 o funudau i'r amser a gyhoeddwyd yn ein hamserlen, waeth beth fo'r achos.

### Sut i wneud hawliad

Y ffordd fwyaf cyflym a hawdd o wneud hawliad Ad-dalu am Oedi yw defnyddio ein gwe-ffurflen bwrpasol yn **DelayRepay.GWR.com**.

Gallwch hefyd gyflwyno hawliad trwy lenwi ac anfon atom ffurflen hawlio iawndal, sydd ar gael yn ein gorsafoedd. Fel arall, gallwch lawrlwytho copi yn **GWR.com**.

Dylech anfon y ffurflen wedi'i llenwi at **Freepost GWR DELAY REPAY.**

Bydd angen arnoch roi manylion y daith a effeithiwyd arni a naill ai docyn gwreiddiol eich taith neu gopi ohono. Os ydych yn teithio i orsaf â rhwystrau tocynnau, gallwch roi gwybod i staff bod angen arnoch gadw eich tocyn a byddant yn caniatáu ichi ymadael â'r orsaf.

Os oes gennych gerdyn clyfar GWR cofrestredig, gallwch fuddio o'r system Ad-dalu'n Awtomatig am Oedi (ADR), gan wneud hawliadau'n hawdd trwy un clic.

Os ydych wedi defnyddio cerdyn Oyster neu system dalu wrth fynd TfL i deithio, dylech gynnwys datganiad defnyddio sydd ar gael i'w lawrlwytho yn **TfL.gov.uk.** Bydd angen arnoch sicrhau bod eich cerdyn digyffwrdd wedi'i gofrestru gyda TfL.

Rhaid cyflwyno unrhyw hawliad cyn pen 28 o ddiwrnodau o'r daith a effeithiwyd arni, a rhaid ichi wneud hawliad newydd ar gyfer pob achos o oedi.

Pan fyddwch yn cofrestru i gael cyfrif gyda ni yn **DelayRepay.GWR.com**, byddwn yn cadw eich manylion er mwyn gwneud y broses o hawlio'n gyflymach ac yn haws yn y dyfodol.

## Sut yr ydym yn talu iawndal

Caiff iawndal ei dalu trwy:

- Drosglwyddiad banc
- Taliad i gerdyn
- E-daleb (sy'n ymddangos fel credyd ar eich cyfrif GWR.com)
- Talebau Teithio'r Rheilffyrdd
- Rhodd i elusen

## Sut yr ydym yn cyfrifo iawndal

### Tocynnau taith sengl

| Hyd yr oedi | Swm yr iawndal a delir fel canran o bris eich tocyn |
|---|---|
| 0-14 o funudau | Dim |
| 15-29 o funudau | 25% o gost y tocyn |
| 30-59 o funudau | 50% o gost y tocyn |
| 60-119 o funudau | 100% o gost y tocyn |
| 120 o funudau neu fwy | 100% o gost y tocyn |

### Tocyn taith dwyffordd

| Hyd yr oedi | Swm yr iawndal a delir fel canran o bris eich tocyn |
|---|---|
| 0-14 o funudau | Dim |
| 15-29 o funudau | 12.5% o gost y tocyn |
| 30-59 o funudau | 25% o gost y tocyn |
| 60-119 o funudau | 50% o gost y tocyn |
| 120 o funudau neu fwy | 100% o gost y tocyn |

**Tocynnau tymor**

| Hyd yr oedi | Swm yr iawndal a delir fel canran o bris eich tocyn |
|---|---|
| 0-14 o funudau | Dim |
| 15-29 o funudau | 25% o gost y daith |
| 30-59 o funudau | 50% o gost y daith |
| 60-119 o funudau | 100% o gost y daith |
| 120 o funudau neu fwy | 200% o gost y daith |

Os ydych yn teithio ar Docyn Tymor, byddwn yn cyfrifo gwerth yr iawndal ar sail un daith sengl, yn seiliedig ar y pris a daloch am eich tocyn. Caiff hyn ei gyfrifo fel y ganlyn:

| Math o Docyn Tymor | Cyfrifiad pris tocyn sengl |
|---|---|
| Wythnosol | 1/10 o gyfanswm pris y tocyn |
| Flexi | 1/16 o gyfanswm pris y tocyn |
| Misol | 1/40 o gyfanswm pris y tocyn |
| Chwarterol | 1/120 o gyfanswm pris y tocyn |
| Blwyddyn | 1/464 o gyfanswm pris y tocyn |

Os oes gennych docyn hyblyg, aml-docyn neu docyn Rover, defnyddir pris dyddiol cyfrannol y tocyn i gyfrifo’r iawndal.

Rydym yn rhannu cost y tocyn â nifer y dyddiau y mae’n ddilys ar eu cyfer. Er enghraifft, cyfrifir cyfradd ddyddiol tocyn sy’n ddilys ar gyfer 10 taith fel 1/10 o gyfanswm pris y tocyn.

## Ad-dalu'n Awtomatig am Oedi

Mae Ad-dalu'n Awtomatig am Oedi (ADR) yn wasanaeth sy'n gwneud hawliadau Ad-dalu am Oedi yn haws fyth trwy un clic.

Trwy'r system hon, byddwn yn dechrau hawliad Ad-dalu am Oedi'n awtomatig ar eich rhan mewn llawer o achosion, os ydym o'r farn y bu oedi o 15 o funudau neu fwy ar eich taith. Os oes gennych gyfrif talu wrth fynd GWR yn gysylltiedig â'ch cerdyn clyfar touch GWR, wedi prynu Tocyn Tymor ar eich cerdyn clyfar touch ar ein gwefan, neu wedi prynu tocyn Advance ar ein gwefan, bydd angen arnoch greu cyfrif yn **DelayRepay.GWR.com** a dewis bod yn rhan o'r system Ad-dalu'n Awtomatig am Oedi.

Bydd angen ichi dapio neu sganio i mewn ac allan ar ddechrau a diwedd eich taith er mwyn inni allu talu iawndal trwy'r system Ad-dalu'n Awtomatig am Oedi.

### Hawliadau dilys

Y cwsmeriaid sy'n gyfrifol am gyflwyno hawliadau dilys ac rydym yn cadw'r hawl i wirio dilysrwydd yr holl hawliadau a dderbyniwn. Rydym yn derbyn hawliadau a wneir gan drydydd parti ar yr amod eu bod yn cynnwys enw'r teithiwr a manylion y daith. Rydym yn ymdrin yn ddifrifol â hawliadau twyllodrus a byddwn yn cymryd camau pellach lle y bo'n briodol.

Lle bydd oedi ar ein gwasanaeth am 15 o funudau neu fwy, byddwn yn rhoi gwybod ichi am eich hawl i hawlio iawndal trwy'r sianelau canlynol:

- Cyhoeddiadau ar drenau y mae oedi arnynt. Byddant hefyd yn rhoi gwybod ichi sut i gyflwyno hawliad.
- Mae ein gwefan yn dangos sut y gallwch hawlio'ch iawndal
- Mae gwybodaeth Ad-dalu am Oedi ar gael ar bosteri mewn gorsafoedd

- Mae ein negeseuon e-bost at gwsmeriaid yn cynnwys gwybodaeth Ad-dalu am Oedi

Os oes gennych gyfuniad o docynnau ar gyfer eich taith, byddwn yn talu iawndal ichi am eich taith gyfan.

Os oedd rhan o’ch taith ar drên cwmni arall, byddwn yn talu iawndal ichi os mai ni oedd achos yr oedi. Os nad ni oedd yn gyfrifol am yr oedi, byddwn yn trosglwyddo eich hawliad i’r cwmni trên arall a gofyn iddo gysylltu â chi. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod ichi pan fyddwn yn gwneud hyn.

Os ydym yn cyhoeddi rhybudd ‘peidiwch â theithio’ ac rydych yn dilyn ein cyngor, gallwch wneud cais am ad-daliad llawn o’r gwerthwr gwreiddiol os oes gennych docyn sengl neu docyn dwyffordd. Os oes gennych Docyn Tymor ac yn methu teithio, dylech gysylltu â’n **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** a fydd yn prosesu iawndal cyfwerth â chost y daith.

# Colledion eraill

## Colledion neu gostau eraill

Nid yw'r cynlluniau iawndal a nodir uchod yn cyfyngu ar nac yn eithrio'ch hawliau cyfreithiol eraill i iawndal am golledion fel defnyddiwr, lle roedd GWR ar fai o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 ac wedi methu â darparu ichi ei wasanaeth rheilffordd i deithwyr gyda gofal a medr rhesymol.

Os ydych yn tybio bod hyn yn berthnasol i'ch taith, dylech gysylltu â'n **tîm Cymorth i Gwsmeriaid**. Rhaid ichi beidio â cheisio adennill yr un arian dwywaith, er enghraifft o dan ein proses hawliadau Ad-daliad am Oedi ac o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015.

## Teithiau awyren a Digwyddiadau

Os ydych yn cysylltu â gwasanaeth trafnidiaeth arall, neu'n mynd i ddigwyddiad, dylech ganiatáu digon o amser i gyrraedd.

Er enghraifft, mae Maes Awyr Heathrow yn awgrymu y dylech ganiatáu 3 awr ychwanegol os ydych yn mynd ar hediad pellter hir a 2 awr o leiaf os ydych yn teithio i gyrchfan yn Ewrop. Mae Maes Awyr Gatwick yn dweud y dylech gyrraedd 2 awr cyn i'ch hediad ymadael. Os ydych yn teithio ar Eurostar, rydym yn awgrymu y dylech gyrraedd 90 o funudau cyn amser ymadael y gwasanaeth ar yr amserlen, ond dylech gyfeirio bob amser at y cwmni y teithiwch â hwy am ei gyngor diweddaraf.

Os nad ydych yn caniatáu amser digonol pan fyddwch yn teithio, ac rydych yn methu eich taith ymlaen, efallai na fyddwn yn gallu talu'r costau ychwanegol a eir iddynt. Mae'n bwysig prynu yswiriant teithio llawn.

Yn ystod cyfnod o oedi sylweddol, bydd ein staff yn ceisio canfod/dod o hyd i deithwyr ag anghenion o ran teithio ymlaen sy'n arbennig o ddibynnol ar amser (er enghraifft dal awyren). Os ydych chi'n poeni nad ydym yn ymwybodol o'ch angen, dylech ddweud wrth aelod o'r staff er mwyn inni allu eich helpu.

## Gwaith gwella wedi'i gynllunio

Mae gan Network Rail raglen barhaus o waith peirianyddol er mwyn gwella gwasanaethau rheilffyrdd. O dro i dro, mae angen arnom newid ein hamserlen er mwyn caniatáu i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Fel arfer rydym yn gwybod am waith gwella 12 wythnos cyn iddo ddechrau, ac rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i'n gwasanaethau ar ein gwefan yn rheolaidd. Fel arall, gallwch gysylltu ag Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol i gael gwybodaeth am waith ledled y rhwydwaith rheilffyrdd cyfan.

Byddwn hefyd yn gosod posteri yn ein gorsafoedd â staff bedair wythnos cyn i'r gwaith ddechrau.

Byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau y gallwch deithio ar drên o hyd ar gyfer eich holl deithiau yn ystod cyfnod y gwaith. Fodd bynnag, bydd angen arnom eich cludo ar y ffordd o dro i dro.

Pan fydd hynny'n digwydd, nid oes gennym le bob amser ar gyfer pethau fel:

- Pramiau a chadeiriau gwthio nad ydynt yn plygu
- Beiciau nad ydynt yn plygu
- Anifeiliaid (heblaw cŵn cymorth)

Os oes angen ichi deithio gydag unrhyw un o'r rheiny, dylech wirio statws eich taith cyn gadael eich cartref.

## Gwaith brys

Weithiau mae ar Network Rail angen gwneud gwaith peirianyddol heb lawer o rybudd ac mae'n rhaid inni redeg amserlen wahanol. Pan fydd hynny'n digwydd, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd ichi ag y gallwn – trwy ein gwefan ac yn ein gorsafoedd.

Gallwch ein dilyn ar **X @GWRHelp** i gael diweddariadau byw ac mae gennym system i anfon rhybuddion teithio atoch. Gallwch gofrestru i dderbyn rhybuddion yn **JourneyCheck.com/GWR**.

# Ad-daliad am eich tocyn pan nad ydych yn teithio

## Oedi a chanslo trenau

Os oes oedi i'ch trên neu os caiff ei ganslo ac rydych yn penderfynu peidio â theithio, gallwch hawlio ad-daliad llawn o gost y tocyn oddi wrth y gwerthwr gwreiddiol. Lle y byddwch wedi prynu eich tocyn oddi wrthym, byddwn yn rhoi ad-daliad llawn ichi mewn unrhyw swyddfa docynnau GWR lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn berthnasol hefyd os ydych wedi cychwyn ar eich taith ac wedi gorfod rhoi'r gorau iddi oherwydd tarfu.

Os ydych chi wedi prynu tocyn papur oddi wrth TfL, bydd rhaid ichi hawlio unrhyw ad-daliad oddi wrth TfL.

## Os ydych yn dewis peidio â theithio

Ni fyddwn yn rhoi ad-daliad am rai mathau o docynnau – er enghraifft, tocynnau Advance – felly mae'n syniad da gwirio telerau ac amodau eich tocyn cyn ichi ei brynu.

Os ydych yn penderfynu peidio â theithio am resymau personol, gallwch hawlio ad-daliad hyd at 2359 ar y diwrnod cyn i'ch tocyn ddod yn ddilys ar gyfer teithio.

O'r diwrnod y bydd eich tocyn yn dod yn ddilys ar gyfer teithio, ni fydd modd talu ad-daliad heblaw:

- Nid oeddwn yn gallu darparu'r gwasanaeth trên a hysbyswyd, neu
- Roedd amgylchiadau eithriadol yn eich atal rhag teithio

Mae amodau llawn tocynnau ac ad-dalu ar gael ar **GWR.com** neu weler amodau 29 a 30 o **Amodau Teithio'r Rheilffyrdd Cenedlaethol** fersiwn 7.

Byddwn yn codi ffi weinyddol gwerth £5 am bob cais a gyflwynwyd.

## Rhoi ad-daliad am docynnau tymor

Yn y rhan fwyaf o achosion, gallwn roi ad-daliad os nad ydych yn defnyddio rhan o'ch Tocyn Tymor. Gallwch ddychwelyd y Tocyn Tymor i'r gwerthwr gwreiddiol a byddwn yn rhoi ad-daliad o'r dyddiad y rhoesoch y tocyn yn ôl.

Rydym yn cyfrifo'r ad-daliad fel y gwahaniaeth rhwng cost y Tocyn Tymor a brynasoch yn wreiddiol a chost Tocyn Tymor am y cyfnod rydych wedi'i ddefnyddio mewn gwirionedd.

Mae tocynnau Tymor Flexi yn ddilys am 28 o ddiwrnodau. Os nad ydych wedi defnyddio'r 8 tocyn diwrnod, efallai y bydd gennych hawl i gael ad-daliad os ydych yn gwneud hawliad cyn pen y cyfnod dilysrwydd sy'n 28 o ddiwrnodau. Rhaid bod o leiaf un tocyn diwrnod ar ôl heb ei ddefnyddio.

Caiff ad-daliad ei gyfrifo trwy dynnu cost tocyn Diwrnod Dwyffordd Unrhyw Amser am yr un daith ar gyfer pob diwrnod o deithio a ddefnyddiwyd o gost y tocyn Tymor Flexi. Rydym yn codi ffi weinyddol gwerth £5 am bob cais a gyflwynwyd.

Mae'r telerau ac amodau llawn ar gael yn **GWR.com/your-tickets/choosing-your-ticket/season-tickets**.

Mae ein Tocynnau Tymor yn cynnig gwerth da am arian i deithwyr rheolaidd oherwydd rydych yn talu llawer llai bob dydd am eich taith nag y byddech am docynnau bob dydd ar wahân. Rydych hefyd yn arbed mwy gyda Thocyn Tymor blwyddyn nag yr ydych gyda thocyn mis, er enghraifft.
Mae pris Tocyn Tymor blwyddyn yn cael ei gyfrifo ar sail y gyfradd am 40 wythnos ac nid oes ganddo ddilysrwydd ad-dalu ar ôl 10 mis a 12 diwrnod. Felly efallai y gwelwch nad oes ond swm bach iawn i'w ad-dalu, os o gwbl, os na fydd llawer o ddilysrwydd yn weddill.

## Os ydych yn sâl

Os na allwch deithio am fwy na phedair wythnos oherwydd salwch, dylech gysylltu â ni cyn gynted ag y bo modd i drafod ad-daliad posibl o'ch Tocyn Tymor. Byddwn yn gofyn am dystiolaeth o'ch salwch, ac o'i dderbyn, byddwn yn ôl-ddyddio'r ad-daliad i ddechrau'r salwch.

## Tocynnau tymor sydd ar goll, neu a gafodd eu dwyn neu eu difrodi

Mae'n bwysig ichi gadw eich tocyn yn ddiogel. Os ydych yn colli Tocyn Tymor papur, gallwn roi ail docyn ichi ond byddwn yn codi ffi weinyddol amdano. Os yw eich tocyn yn peidio â gweithio am unrhyw reswm, lle bo modd byddwn yn rhoi cerdyn clyfar touch ichi yn ei le.

Os oes gennych gerdyn clyfar touch, rhowch wybod inni os ydych yn ei golli a byddwn yn ei ganslo ar unwaith ac yn cyhoeddi un newydd yn ei le. Mae telerau ac amodau llawn eich cerdyn clyfar touch i'w gweld ar **GWR.com/Touch**.

## Os caiff eich eiddo ei ddifrodi

Chi sy'n gyfrifol am eich holl eiddo mewn gorsafoedd neu ar ein trenau

Os ydych yn ei golli neu os caiff ei ddwyn, nid ydym yn rhoi unrhyw iawndal. Os caiff eich eiddo ei ddifrodi, ni fyddwn yn rhoi iawndal ond lle roedd ein staff yn gyfrifol am y difrod.

## Damweiniau

Mae teithio ar y trên yn ddiogel iawn, ac rydym yn gweithio'n galed i atal damweiniau rhag digwydd.

Os aiff rhywbeth o chwith a chewch eich anafu, rhowch wybod inni cyn gynted â phosibl. Os yw'n argyfwng, byddwn yn trefnu'r help mae arnoch ei angen.

Rydym yn cofnodi holl fanylion damweiniau er mwyn ymchwilio i'r hyn a ddigwyddodd ac i sicrhau na fydd yn digwydd eto

## Eiddo coll

Os ydych yn gadael eich eiddo ar un o'n trenau neu mewn un o'n gorsafoedd, gallwch roi gwybod inni trwy fynd i **GWR.com/Lost**.

Caiff unrhyw eitemau y down o hyd iddynt eu hanfon i'n swyddfa eiddo coll yng ngorsaf Bryste Temple Meads.

Yn aml, mae eitemau sydd wedi cael eu gadael ar drenau yn cael eu casglu pan fydd y trên yn cyrraedd ei arhosiad olaf. Gan fod llawer o deithiau'n rhai hir iawn, efallai bod yr arhosiad olaf yn cael ei reoli gan gwmni trên gwahanol, felly efallai bydd yr eiddo coll yn mynd i swyddfa'r cwmni hwnnw. Byddwn yn rhoi gwybod ichi os bydd angen ichi gysylltu ag unrhyw un arall hefyd.

Gall eitemau gymryd hyd at 7 diwrnod i’n cyrraedd, ac rydym ni’n cadw’r eitemau y deuwn o hyd iddynt am 12 wythnos. Os oes gennym rywbeth sy’n eiddo i chi, gallwch ei gasglu, neu gallwn ei anfon yn ôl trwy’r post neu wasanaeth cludwr. Y cyfan y gofynnwn ichi dalu yw unrhyw ffioedd sy’n gysylltiedig â’r postio neu wasanaeth cludwr. Nid ydym yn codi ffi am gadw neu drin eich eiddo coll.

# Cysylltu â ni

## Ewch i GWR.com a llenwi ein ffurflen ar-lein

Pan fydd ein **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** wedi derbyn eich neges, eu nod yw cysylltu'n ôl â chi cyn pen pum diwrnod gwaith. Os oes arnynt angen mwy o amser i ymchwilio i gŵyn neu i wirio gwybodaeth, gallai gymryd hyd at 20 o ddiwrnodau gwaith.

## Ffoniwch ni ar 03457 000 125 (♦)

Os ydych yn teithio cyn bo hir a bod arnoch angen help ar unwaith, bydd ein **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** yn fwy na hapus i'ch helpu gyda beth bynnag mae arnoch ei angen.

Maent ar gael: **0800 i 2000 bob dydd.**

## Cysylltwch trwy'r cyfryngau cymdeithasol

Os oes arnoch angen cymorth gyda'ch taith, gallwch gysylltu â ni ar **X @GWRHelp**, anfon neges a **Facebook** yn **facebook.com/GWRUK** neu drwy **WhatsApp** ar **07890 608043**.

## Ysgrifennwch atom yn ddi-dâl

Ein cyfeiriad yw: **Freepost GWR CUSTOMER SUPPORT.**

Pan fydd ein **tîm Cymorth i Gwsmeriaid** wedi derbyn eich llythyr, eu nod yw cysylltu'n ôl â chi cyn pen pum diwrnod gwaith. Os oes arnynt angen mwy o amser i ymchwilio i gŵyn neu i wirio gwybodaeth, gallai gymryd hyd at 20 o ddiwrnodau gwaith

## Sylwadau ynghylch cwmnïau trên eraill

Os yw unrhyw rai o'ch sylwadau'n ymwneud â chwmni trên arall, byddwn yn eu hanfon ymlaen at y cwmni hwnnw ac yn gofyn iddo gysylltu â chi. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod ichi pan fyddwn wedi gwneud hynny.

## Panel Cwsmeriaid

Mae gennym Banel Cwsmeriaid a'i nod yw rhoi adborth inni ynghylch yr hyn y gallem ei wneud yn well yn eu barn nhw, ac i rannu profiadau bywyd go iawn o'n gwasanaethau gyda ni, ar sail ffurfiol.

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod y Panel Cwsmeriaid yn cynnwys amrywiaeth eang o deithwyr GWR, er mwyn sicrhau y caiff pob barn ei chynrychioli.

Mae mwy o wybodaeth am ein Panel Cwsmeriaid ar gael yn **GWR.com**.

## Rheilffyrdd Cymunedol

Rydym yn gweithio gyda nifer o Bartneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol ar ein rhwydwaith er mwyn helpu i bobl gael y budd mwyaf o'u rheilffyrdd, hybu cynhwysiant cymdeithasol a theithio cynaliadwy.

Mae mwy o fanylion am ein gwaith gyda Rheilffyrdd Cymunedol ar **GWR.com**

Rydym hefyd yn ariannu 'Cronfa Gwella Cwsmeriaid a Chymunedau' er mwyn cynnal prosiectau ledled ein rhwydwaith sy'n mynd i'r afael ag angen cymdeithasol ac sydd o fudd i gymunedau lleol. Mae panel o gynrychiolwyr cwsmeriaid ledled ein llwybrau yn cwrdd â'n tîm rheoli gweithredol i edrych ar gynigion. Yr Adran Drafnidiaeth sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ac sy'n eu cymeradwyo.

## Yr Ombwdsmon Rheilffyrdd

Gofynnwn ichi roi cyfle inni geisio datrys eich cwyn. Os ydych yn anfodlon ar yr ateb a gewch, ac rydych yn ddefnyddiwr (h.y. nid oedd eich taith yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â'ch busnes) mae gennych hawl i apelio i'r Ombwdsmon Rheilffyrdd.

Mae'r Ombwdsmon Rheilffyrdd yno i helpu i ddatrys unrhyw anghydfodau sy'n parhau rhyngom a theithwyr. Gallwch ddefnyddio ei wasanaethau'n ddi-dâl ac mae'n annibynnol ar y diwydiant rheilffyrdd.

Nid yw'n cymryd ochr, y cwbl a wnaiff yw edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael. Bydd yn helpu i'r ddwy ochr ddod i gytundeb. Lle na fydd hynny'n digwydd, bydd yn gwneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth mae wedi'i chael. Os ydych chi'n cytuno â'i benderfyniad, mae'n rhaid inni weithredu yn ôl yr hyn mae'n ei ddweud.

Gallwch apelio i'r Ombwdsmon Rheilffyrdd:

- Gofynnwn ichi roi cyfle inni geisio datrys eich cwyn. Os ydych yn anfodlon ar yr ateb a gewch, ac rydych yn ddefnyddiwr (h.y. nid oedd eich taith yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â'ch busnes) mae gennych hawl i apelio i'r Ombwdsmon Rheilffyrdd.
- Mae'r Ombwdsmon Rheilffyrdd yno i helpu i ddatrys unrhyw anghydfodau sy'n parhau rhyngom a theithwyr. Gallwch ddefnyddio ei wasanaethau'n ddi-dâl ac mae'n annibynnol ar y diwydiant rheilffyrdd.
- Nid yw'n cymryd ochr, y cwbl a wnaiff yw edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael. Bydd yn helpu i'r ddwy ochr ddod i gytundeb. Lle na fydd hynny'n digwydd, bydd yn gwneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth mae wedi'i chael. Os ydych chi'n cytuno â'i benderfyniad, mae'n rhaid inni weithredu yn ôl yr hyn mae'n ei ddweud.

Mae rhai cwynion na fydd yr Ombwdsmon Rheilffyrdd yn gallu ymchwilio iddynt, er enghraifft os yw'n ymwneud â'r ffordd mae un o'n gwasanaethau wedi cael ei gynllunio neu bolisïau'r diwydiant.

Os felly, bydd yn cysylltu â chi i roi gwybod. Os oes modd, bydd yn trosglwyddo'ch cwyn i sefydliad arall a allai eich helpu ymhellach, fel Transport Focus a London TravelWatch – y cyrff gwarchod annibynnol i'r diwydiant rheilffyrdd. Byddant yn adolygu'ch cwyn yn annibynnol a, lle y bo'n briodol, yn mynd ar ôl y mater ymhellach ar eich rhan.

Manylion cyswllt yr Ombwdsmon Rheilffyrdd:

- Gwefan (gan gynnwys sgwrsio ar-lein) **railombudsman.org**
- Ffôn **0330 094 0362**
- Ffôn testun **0330 094 0363**
- E-bost **info@railombudsman.org**
- X **@RailOmbudsman**
- Post **Freepost - RAIL OMBUDSMAN**.

Mae tîm Canolfan Gysylltu'r Ombwdsmon Rheilffyrdd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 0900 a 1700.

# Eich data

## Yn GWR rydym yn trin eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data..

Efallai y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth i gysylltu â chi am ein gwasanaethau.


Gallwch reoli eich dewisiadau cysylltu, gan gynnwys dewis peidio â derbyn deunyddiau marchnata, trwy ddiweddaru eich dewisiadau yn eich cyfrif GWR ar-lein ar unrhyw adeg.

Ni fyddwn yn rhannu unrhyw ddata heblaw'r hyn sydd ei angen arnom i ddarparu eich gwasanaethau teithio, a byddwn yn ei ddefnyddio yn unol â'r gofynion cyfreithiol bob amser.

Mae gennych hawliau o ran eich gwybodaeth bersonol.

I gael mwy o wybodaeth a sut i gysylltu â ni mewn perthynas â'ch data, ewch i **GWR.com/privacy-policy** neu cysylltwch â'n tîm Cymorth i Gwsmeriaid i gael copi wedi'i argraffu.

# Ein rhwydwaith




This map is subject to change.

I gael y map diweddaraf o rwydwaith GWR, sy'n cynnwys gwybodaeth am fynediad heb risiau, ewch i **GWR.com/Stations**

Great
Western
Railway